OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 44

# Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) 2020

## RHAN 5

## Diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag anifeiliaid, bwyd a masnach

**Diwygio Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2018**

**28.**—(1) Mae Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2018(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

(a) yn y diffiniad o "safle torri", yn lle "o dan Erthygl 31(2) o Reoliad (EC) Rhif 882/2004" rhodder "o dan Erthygl 148(3) o Reoliad (EU) 2017/625",

(b) yn y diffiniad o "lladd-dy" yn lle "o dan Erthygl 31(2) o Reoliad (EC) Rhif 882/2004" rhodder "o dan Erthygl 148(3) o Reoliad (EU) 2017/625",

(c) hepgorer y diffiniad o "Rheoliad (EC) Rhif 882/2004", a

(d) ar ôl y diffiniad o "Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009" mewnosoder—

> "ystyr "Rheoliad (EU) 2017/625" ("*Regulation (EU) 2017/625*") yw Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion(**2**);".

(**1**) O.S. 2018/968 (Cy. 248), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/942 ac O.S. 2018/1120.
(**2**) OJ Rhif L 95, 7.4.2017, t. 1, fel y'i diwygiwyd gan Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/478 (OJ Rhif L 82, 25.5.2019, t. 4).